Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Llanllyfni
# Llanllyfni
# Caernarfon
# Gwynedd
# LL54 6SH

# Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2017

# gan

# Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 26/05/2017**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Llanllyfni mewn pentref bychan ar gyrion Caernarfon. Caiff ei chynnal gan awdurdod lleol Gwynedd. Mae 90 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed, gan gynnwys 10 oed meithrin ar y gofrestr, a chânt eu haddysgu mewn tri dosbarth oed cymysg.

Mae tua 26% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Tua 27% sydd ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol ac ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Daw tua 76% o'r disgyblion o gartrefi lle y siaredir y Gymraeg. Mae hyn yn ostyngiad ers yr arolygiad diwethaf pan roedd 95% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd.

Cychwynnodd y pennaeth presennol yn ei swydd ym mis Mehefin 2000. Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Chwefror 2011 ac mae tros hanner yr athrawon yn newydd ers hynny.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Llanllyfni yn 2016-2017 yw £3,869. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Ngwynedd yw £10,404 a'r lleiafswm yw £3,089. Mae Ysgol Gynradd Llanllyfni yn y 47fed safle o'r 93 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd buddiol yn ystod eu hamser yno
- medrau llafar a gwrando y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda
- medrau darllen ac ysgrifennu y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda yn y ddwy iaith
- dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach yn dda
- aelodau'r cyngor ysgol yn weithgar iawn ac mae eu penderfyniadau yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion
- disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrtais a gofalgar
- cydweithio effeithiol iawn yn bodoli rhwng athrawon a'r staff cymorth dysgu sy'n llwyddo i ddarparu cefnogaeth gyfoethog i ddisgyblion
- disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth gadarn i hyrwyddo lles disgyblion
- awyrgylch gynhaliol yn bodoli, lle mae disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi
- y pennaeth yn hyrwyddo gwaith tîm ymhlith y staff sydd wedi galluogi'r athrawon newydd i feithrin perthynas waith dda gyda'i gilydd a chydag eraill
- trefniadau rheoli perfformiad yn gosod targedau perthnasol sy'n ymateb yn gadarnhaol i flaenoriaethau gwella'r ysgol ac anghenion datblygu personol y staff
- arweinwyr yn gwneud defnydd da o arbenigedd gwahanol aelodau staff
- ganddi amrediad eang o bartneriaethau effeithiol sy'n cyfrannu'n bwrpasol tuag at wella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion a chodi safonau
- gweithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol yn adnabod ei chryfderau yn dda a'r rhan fwyaf o'r hyn sydd angen ei wella

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod disgyblion mwy galluog yn gwneud cynnydd sy'n cyfateb i'w gallu

A2 Cynllunio cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu'r ystod lawn o fedrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws y cwricwlwm

A3 Sicrhau bod yr ysgol yn bodloni gofynion y maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol yn llawn

A4 Datblygu rolau strategol cydlynwyr wrth arwain a monitro yn eu meysydd cyfrifoldeb

A5 Datblygu rôl y llywodraethwyr wrth ddwyn yr ysgol i gyfrif

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae tua hanner y disgyblion yn dechrau'r ysgol gyda'r medrau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n is na'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoed. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd gwerthfawr ac yn cyflawni'n dda, gan gynnwys y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn gweithio'n bwrpasol yn y dosbarthiadau ac yn gwneud cynnydd cryf yn erbyn nodau'r gwersi. Fodd bynnag, nid yw disgyblion mwy abl yng nghyfnod allweddol 2 bob amser yn cyflawni cystal ag y gallent.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n astud ac yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llafar Cymraeg. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn trafod eu syniadau'n glir ac yn frwdfrydig gan ddefnyddio ystod o eirfa amrywiol wrth drafod anifeiliaid y jwngl, er enghraifft. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn cyfathrebu'n effeithiol yn y ddwy iaith ac yn mynegi barn synhwyrol a deallus gan ddefnyddio iaith goeth mewn tafodiaith leol wrth drafod materion fel yr amgylchfyd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen. Mae llawer yn darllen yn rhugl yn y Gymraeg, gyda mynegiant ac ystyr. Maent yn mwynhau trafod eu hoff lyfrau ac yn dangos gwybodaeth gadarn am wahanol awduron. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion o safon uchel yn y ddwy iaith, ac mae llawer yn mynegi barn aeddfed am eu hoff lyfrau ac awduron amrywiol. Wrth ymchwilio i destun arbennig, mae llawer yn cywain gwybodaeth o wahanol destunau a'r we yn hyderus.

Mae llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu yn y Gymraeg. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn ysgrifennu'n annibynnol yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio medrau llythrennedd yn effeithiol ar draws y cwricwlwm i ysgrifennu am anifeiliaid amrywiol fel Eli'r Eliffant ac yn atalnodi eu gwaith yn lled gywir. Defnyddiant ansoddeiriau, idiomau a chymariaethau'n effeithiol i gyfoethogi'r gwaith. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn llwyddiannus yn y Gymraeg. Mae llawer yn ysgrifennu darnau estynedig diddorol fel hanes bachgen yn dod i fyw i Gymru fel faciwî. Defnyddia'r rhan fwyaf gymariaethau ac idiomau perthnasol yn eu gwaith. Mae enghreifftiau effeithiol iawn o lythrennedd ar draws y meysydd fel ysgrifennu erthygl sensitif a synhwyrol iawn am rôl y ferch yn ystod cyfnod y rhyfel. Fodd bynnag, ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, nid yw disgyblion mwy abl yn ysgrifennu darnau digon ymestynnol a heriol yn gyson.

Mae llawer o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn datblygu eu gwaith ysgrifenedig yn dda yn Saesneg gan ddefnyddio ystod amrywiol o batrymau brawddegau'n gywir ac yn dangos gafael gynyddol o eirfa a thermau. Fodd bynnag, nid ydynt yn ysgrifennu'n estynedig i wahanol ddibenion yn ddigon cyson.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae datblygiad mathemategol rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu’n gadarn iawn. O oed ifanc iawn, mae bron pob disgybl yn meithrin agwedd gadarnhaol iawn tuag at fathemateg. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae’r rhan fwyaf yn darllen, deall ac ysgrifennu rhifau hyd at 100 a mwy yn gywir. Gall y rhan fwyaf gasglu gwybodaeth am hoff ffrwythau disgyblion y dosbarth yn llwyddiannus gan drosglwyddo’r wybodaeth honno yn effeithiol i ffurf graff. Maent yn darllen y graff yn ystyrlon gan adnabod geirfa allweddol fel echelin fertigol, echelin llorweddol, teitl a nifer yn gywir. Fodd bynnag, nid yw’r disgyblion yn defnyddio a chymhwyso eu medrau rhifedd yn ddigon cyson ar draws yr holl feysydd dysgu.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o strategaethau rhif i ddatrys problemau mathemategol. Gallant amcangyfrif yn ystyrlon gan resymu eu hatebion yn aeddfed. Mae llawer yn gallu egluro canlyniadau a gweithdrefnau’n glir drwy ddefnyddio ieithwedd fathemategol gywir i esbonio sut mae trosi unedau o un hyd metrig i unedau metrig llai. Gall y rhan fwyaf ddadansoddi data, datrys problemau ffracsiynau a chanrannau, yn ogystal â mesur cynhwysedd ac arwynebedd yn briodol i’w hoed a’u gallu. Fodd bynnag, nid yw’r rhan fwyaf yn cymhwyso’u medrau rhifedd yn ddigon cyson nac effeithiol ar draws ystod o bynciau nac i’r lefel briodol.

Yn gyffredinol, nid yw disgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio na datblygu'r ystod lawn o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn y meysydd dysgu nac ar draws y cwricwlwm. Mae eu medrau cyfathrebu yn cynyddu’n gyson o’r Cyfnod Sylfaen i ddiwedd cyfnod allweddol 2. Drwy hyn, mae disgyblion yn gallu defnyddio llechen gyfrifiadurol, ysgrifennu llythyr i Ysgol yr Hendre ym Mhatagonia a chreu cyflwyniad addas ar y tywydd yn y Cyfnod Sylfaen. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, maent yn defnyddio eu medrau meddwl a chreadigol yn llwyddiannus wrth greu fideo diddorol ar gigfrain ar sail rhaglen ddogfen. Fodd bynnag, nid yw disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn creu lluniau na delweddau, creu graffiau na rheoli teganau sy’n cael eu rhaglennu. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cynhyrchu na defnyddio cronfeydd data i ddadansoddi data na dilyn llwybrau ymholi penodol. Nid oes gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gymwys o sut i ddefnyddio taenlenni wrth fodelu.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae tuedd cyffredinol o gynnydd rhwng y 25% isaf a’r 50% uwch ym mherfformiad yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol ar y deilliannau disgwyliedig. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliannau uwch na’r disgwyl wedi ei gosod naill ai yn yr 50% uwch neu’r 25% uchaf o’i chymharu ag ysgolion tebyg yn y ddau faes dysgu.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 dros yr un cyfnod, mae perfformiad yr ysgol ar y lefelau disgwyliedig ac uwch wedi amrywio’n fawr ac yn gyffredinol rhwng y 25% uchaf a’r 25% isaf yn y Gymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

Yn gyffredinol, mae perfformiad disgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim ar y deilliannau disgwyliedig ac uwch yn y Cyfnod Sylfaen yn is na’u cyfoedion dros y pedair blynedd diwethaf. O ran y nifer sy’n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yng nghyfnod allweddol 2, nid oes patrwm amlwg o wahaniaeth nodedig ym mherfformiad y grwpiau hyn o’u cymharu â’u cyfoedion, er bod y gagendor yn fwy nodedig ar y lefelau uwch.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd cadw'n iach drwy fwyta ffrwythau a llysiau'n rheolaidd a gwneud ymarfer corff yn gyson. Maent yn cael cyfleoedd cyson i wneud hyn drwy wersi a chlybiau amrywiol ym myd chwaraeon a dawns ac mae hyn yn hyrwyddo eu hiechyd corfforol yn effeithiol. Mae bron bob un yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn medru troi at staff a ffrindiau am help pan fydd ei angen. Maent i gyd yn ymfalchïo yn eu rôl ofalgar fel Bydis Buarth ac yn sicrhau bod eu cyd-ddisgyblion yn teimlo'n hapus a diogel yn yr ysgol.

Mae ymddygiad y disgyblion yn gyson dda tuag at ei gilydd, tuag at y staff a thuag at ymwelwyr. Dangosant barch at bawb o'u cwmpas ac maent yn foesgar, cwrtais a phrydlon. Mae canran presenoldeb yr ysgol yn dangos cynnydd ac yn gosod yr ysgol yn yr 50% uwch neu'r 25% uchaf o ysgolion tebyg am dair o'r pedair blynedd ddiwethaf.

Caiff y disgyblion gyfleoedd cyson i gymryd cyfrifoldeb ac i leisio'u barn am faterion yn ymwneud â'r ysgol trwy weithgarwch y cyngor ysgol, y pwyllgor eco a'r tîm tyfu tatws. Enghraifft nodedig o gyfraniad y disgyblion yw'r gweithdrefnau i arbed ynni ac arian drwy brosiectau fel gosod synwyryddion golau.

Mae llawer o ddisgyblion yn dwyn i gof eu dysgu blaenorol ac adeiladu arno yn effeithiol. Yn y Cyfnod Sylfaen, maent yn gwneud hyn wrth gofio sut mae mesur glawiad a thymheredd. Defnyddia llawer o'r disgyblion eu medrau meddwl yn effeithiol mewn ymchwiliadau gwyddonol neu wrth ddatrys problemau mathemategol. Enghraifft dda o hyn yw eu gallu i ddarllen amserlen bws lleol yn gywir gan ddarganfod rhif y bws, amser gadael, amser cyrraedd a hyd y daith o wahanol fannau cychwyn.

Mae medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion, a'u gallu i weithio'n annibynnol, yn datblygu'n dda. Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos diddordeb, brwdfrydedd ac ymroddiad da iawn at eu dysgu. Mae'r plant yn cymryd rhan yn y gymuned yn rheolaidd drwy gystadlu yn yr eisteddfod leol ac yn ymfalchïo yn eu cymuned trwy weithredu ar brosiectau cadw'r pentref yn daclus.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol, ar y cyfan, yn darparu profiadau dysgu lled werthfawr i'r disgyblion, sy'n bodloni'r mwyafrif o'r gofynion cwricwlaidd yn briodol. Mae athrawon yn cydweithio'n dda ac yn addasu eu cynlluniau gwaith er mwyn manteisio ar gyfleoedd i astudio'r ardal leol, sy'n cynnwys ymweliad preswyl â Chanolfan Rhyd-ddu, er enghraifft. Mae'r cynlluniau'n cynnwys gweithgareddau priodol i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen astudio'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth yng nghyfnod allweddol 2 yn bodloni'r gofynion yn llawn yn y maes hwn.

Mae'r athrawon wedi plethu gofynion y fframwaith llythrennedd yn briodol i'w cynlluniau tymor hir. Fodd bynnag, nid ydynt wedi cynllunio gofynion y fframwaith

rhifedd yn ddigon manwl. O ganlyniad, nid oes darpariaeth bwrpasol i ddatblygu medrau rhifedd y disgyblion yn drefnus ar draws y meysydd dysgu na'r pynciau. Nid ydynt ychwaith wedi cynllunio'n ddigon penodol i ddatblygu medrau TGCh y disgyblion ar draws y pynciau eraill.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r elfen Gymreig yn llwyddiannus iawn. Mae'r ysgol yn hyrwyddo diwylliant a hanes Cymru yn effeithiol trwy sicrhau bod disgyblion yn profi amrywiaeth o weithgareddau perthnasol ac yn dysgu am chwedlau'r ardal fel Blodeuwedd a gwaith artistiaid enwog Cymreig. Maent yn cael eu hannog i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Urdd a chystadlu yn yr eisteddfod leol.

Mae gweithgareddau'r ysgol i ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth, medrau a gwerthoedd y disgyblion mewn meysydd sy'n ymwneud â datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn gadarn iawn. Mae cyfraniad y pwyllgor eco yn eithriadol o fyrlymus a chaiff y disgyblion gyfleoedd i sicrhau bod yr ysgol yn gweithredu mewn modd cynaliadwy. Gwneir hyn drwy fesur a dehongli defnydd ynni'r ysgol, faint o ailgylchu a wneir a sicrhau lleihad mewn gwastraff, gan gadw cofnodion manwl o'r arbedion. Mae'r ysgol yn datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang yn gyson drwy weithgarwch elusennol sy'n eu galluogi i werthfawrogi pwysigrwydd cefnogi pobl eraill sy'n llai ffodus na nhw.

**Addysgu: Da**

Mae'r addysgu yn dda ar draws yr ysgol, ac mae'r athrawon yn creu awyrgylch ddysgu hyfryd sy'n galluogi disgyblion ar draws yr ysgol i weithio'n frwdfrydig ar eu gweithgareddau. Mae perthynas waith effeithiol yn bodoli rhwng y staff a'r disgyblion. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn barod i ddysgu. O ganlyniad, mae disgyblion yn barod i leisio'u barn, cynnig syniadau a gwneud datrysiadau heb ofni gwneud camgymeriadau. Mae'r staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn effeithiol. Maent yn fodelau iaith dda ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau llafar y disgyblion.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae'r cyflwyniadau'r athrawon yn fywiog a brwdfrydig. Maent yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn dda. Maent yn esbonio tasgau'n glir ac yn holi'n bwrpasol er mwyn sicrhau bod gan y disgyblion ddealltwriaeth gadarn. Mae staff y Cyfnod Sylfaen yn darparu gweithgareddau ymarferol ac effeithiol i'r disgyblion, o fewn a thu allan i'r dosbarth, sy'n ennyn eu chwilfrydedd wrth iddynt fwynhau dysgu drwy chwarae. Er enghraifft, gweithgareddau chwarae rôl yn yr iglw.

Mae'r athrawon a'r staff cymorth dysgu yn gweithio'n effeithiol iawn mewn partneriaeth. Mae'r cydweithio hwn yn un o gryfderau'r ysgol ac yn sicrhau bod y disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn gwneud cynnydd da. Mewn cyfnod o gryn newid ymhlith yr athrawon, mae'r cynorthwywyr wedi cynnig elfen addas o ddilyniant a chysondeb iddynt.

Mae'r athrawon yn cynnig adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion yn ystod y gwersi. Maent yn marcio'u gwaith yn rheolaidd gan gynnig sylwadau adeiladol ar sut y gallant wella'u gwaith. Fodd bynnag, nid yw disgyblion bob amser yn ymateb i'r sylwadau hyn.

Caiff llawer o strategaethau asesu ar gyfer dysgu eu hymgorffori'n effeithiol ar draws yr ysgol ac mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio gweithgareddau hunanasesu yn llwyddiannus i wella'u gwaith. Mae athrawon yn adnabod ac yn deall anghenion mwyafrif y disgyblion yn dda. Mae'r staff yn olrhain eu cynnydd yn lled reolaidd ac, ar y cyfan, yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol i dargedu'r rhai y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn defnyddio'r wybodaeth yn ddigon penodol i osod targedau heriol ar gyfer y disgyblion mwy abl.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn adrodd ar y pynciau a'r meysydd dysgu yn bwrpasol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae enghreifftiau da yn cynnwys cyfle priodol i'r disgyblion fyfyrio a chyflwyno eu gweddïau syml eu hunain yn y gwasanaethau boreol wrth gofio am blant sy'n llai ffodus na nhw. Caiff y disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i gymryd rhan flaenllaw yn y gymdeithas wrth gydweithio â'r trigolion i gadw'r pentref yn daclus.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd byw yn iach. Mae cyfleoedd niferus ac amrywiol i ddisgyblion gyfrannu at nifer o agweddau ar fywyd yr ysgol, er enghraifft cymryd eu rhan ar y tîm Tyfu Tatws. Trwy'r gweithgarwch hwn, maent yn cael cyfle pwrpasol i weithio yn yr ardd a phlannu ffrwythau a llysiau. Mae hyn yn eu paratoi'n dda ar gyfer y dyfodol ac yn datblygu medrau mentergarwch yn ymarferol.

Gwneir defnydd da o wasanaethau arbenigol, fel seicolegydd addysg a'r gwasanaeth iaith a lleferydd, i gefnogi disgyblion unigol. Caiff y darpariaethau amrywiol hyn effaith gadarnhaol ar hyder a chyflawniadau'r disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae'r staff yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac yn cynnig cefnogaeth dda iddynt drwy eu gosod mewn grwpiau ymyrraeth, a rhoddi iddynt sylw penodol at wella'u medrau llythrennedd a rhifedd. Mae'r targedau clir a chyraeddadwy a nodir yn y cynlluniau addysg unigol yn cysylltu'n bwrpasol â thargedau'r disgyblion hynny yn y dosbarth.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos ac awyrgylch gartrefol a chynhwysol yn bodoli o fewn yr ysgol ac mae'r disgyblion yn cael cyfle cyfartal o fewn yr holl weithgareddau. Mae polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau'r ysgol yn hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol yn effeithiol. Rhoddir pwyslais ar bwysigrwydd dangos parch a chwrteisi at bawb, ac mae hyn yn arwain at amgylchedd diogel sy'n meithrin gofal at eraill a goddefgarwch ohonynt.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd pwrpasol o'r amgylchedd ffisegol. Mae ganddi gyflenwad cynhwysfawr ac amrywiol o adnoddau ar gyfer gwersi a gweithgareddau cyffredinol. Mae'r ardal allanol wedi ei datblygu'n llwyddiannus i fodloni anghenion y Cyfnod Sylfaen ac, yn dilyn argymhellion y cyngor ysgol, fe ychwanegwyd at adnoddau'r buarth chwarae. Mae arddangosfeydd deniadol a lliwgar ar hyd coridorau a dosbarthiadau'r ysgol, gyda'r rhain yn nodi cyfrifoldebau a phrofiadau'r disgyblion. Mae'r adeiladau mewn cyflwr da, yn ddiogel ac yn cael eu cynnal yn dda ac mae'r safle'n hygyrch i bawb.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan y pennaeth weledigaeth gadarn i hyrwyddo lles disgyblion a chreu ethos cynhaliol ar eu cyfer. Mae wedi llwyddo i rannu hyn yn llwyddiannus ymhlith y staff, y llywodraethwyr a'r rhieni. Mae'n llwyddo i hyrwyddo gwaith tîm ymhlith y staff, ac , mewn amser byr, mae wedi llwyddo i annog yr athrawon newydd i feithrin perthynas waith lwyddiannus gyda'i gilydd. O ganlyniad, mae gan yr holl staff ymrwymiad cryf i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy. Mae gan yr athrawon swydd ddisgrifiadau priodol, sy'n nodi eu cyfrifoldebau'n glir. Mae'r pennaeth yn cynnal cyfarfodydd athrawon yn eithaf rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw rolau strategol cydlynwyr wedi eu datblygu'n llwyddiannus hyd yma.

Mae'r trefniadau rheoli perfformiad sy'n bodoli yn briodol, yn cyfrannu at welliannau mewn agweddau ar yr addysgu a'r dysgu, ac yn cynnig cyfleoedd addas i hyrwyddo datblygiad proffesiynol y staff. Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd priodol wrth gyflwyno mentrau sy'n bodloni rhai blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel ennill gwobr aur y Siarter Iaith. Fodd bynnag, nid yw wedi bod mor llwyddiannus wrth gyflwyno'r fframwaith rhifedd, na chynnig digon o her i ddisgyblion mwy galluog.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gydwybodol ac ymroddgar. Mae gweithgareddau fel arsylwi gwersi'n darparu cyfleoedd defnyddiol i godi eu hymwybyddiaeth o safonau ac ansawdd y ddarpariaeth. Mae ychydig iawn wedi cael hyfforddiant ar ddehongli data perfformiad yn ddiweddar ac wedi rhoi cyflwyniad defnyddiol i'r corff llawn yn dilyn hynny. Mae hyn yn eu cynorthwyo i ddechrau dwyn yr ysgol i gyfrif mewn perthynas â'i deilliannau ac i fynd i'r afael ag unrhyw danberfformiad, ond nid yw hyn wedi ei wreiddio hyd yma.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol rhaglen ddefnyddiol ar gyfer monitro ac arfarnu ystod o agweddau o'i gwaith. Mae'r gweithdrefnau hunanarfarnu yn gwneud defnydd pwrpasol o dystiolaeth uniongyrchol fel arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau, trafod gwaith gyda'r disgyblion a holi eu barn nhw a'u rhieni am fywyd yr ysgol. Mae arweinwyr yn dadansoddi a defnyddio data asesiadau athrawon yn briodol. Mae hyn yn hybu dealltwriaeth y staff o lefelu gwaith disgyblion ac am berfformiad cyffredinol yr ysgol. Mae'r adroddiadau monitro yn canolbwyntio'n briodol ar safon y ddarpariaeth a safonau'r disgyblion. Ar y cyfan, mae'r adroddiadau hyn yn arfarnol ond nid ydynt bob amser yn ddigon miniog i adnabod nifer o'r mannau sydd angen eu gwella yn y ddarpariaeth.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu, er ychydig yn ddisgrifiadol, yn nodi cryfderau'r ysgol yn dda ynghyd â'r rhan fwyaf o agweddau sydd angen eu gwella.

Mae cysylltiad priodol yn bodoli rhwng deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol. Mae'r cynllun gwella presennol yn nodi'n glir y rhesymau am gynnwys y gweithgareddau ac mae'n talu sylw teilwng i gyllid a chyfrifoldebau staff yn ogystal â therfynau amser priodol. Mae'r ddogfen yn cynnwys targedau meintiol sy'n ddefnyddiol i fesur eu llwyddiant. Mae arweinwyr yn adolygu'r cynllun datblygu blaenorol yn bwrpasol gan nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn y targedau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod dda o bartneriaethau sy'n cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus ac yn cael effaith arwyddocaol ar ddeilliannau a safonau.

Mae perthynas dda yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni. Maent yn gefnogol iawn i'r ysgol, ac yn codi arian sylweddol yn flynyddol i brynu offer ac adnoddau. Mae ffocws y pennaeth ar hybu diwylliant agored a chydweithredol yn llwyddo i sicrhau ymrwymiad a chefnogaeth gyson y rhieni.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth gadarn â'r gymuned leol. Mae ymweliadau â'r gymuned a'r defnydd o unigolion lleol i fywyd a gwaith yr ysgol yn gwneud cyfraniad pwysig i brofiadau'r disgyblion. Mae hyn yn hyrwyddo ymdeimlad disgyblion o bwysigrwydd cymuned a'u balchder yn eu hardal leol. Er enghraifft, mae ffermwr lleol yn cefnogi'r ysgol trwy ganiatáu i'r disgyblion ymweld â'i fferm yn rheolaidd. Mae'r staff a'r disgyblion yn cefnogi'r eisteddfod leol yn flynyddol ac yn ymdrechu i gadw'r pentref yn daclus.

Mae partneriaeth lwyddiannus yn bodoli rhwng yr ysgol â'r cylch cyn-ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n dda yn y dosbarth meithrin wrth ddechrau, a bod rhieni'n ymwybodol o weithdrefnau'r ysgol. Mae cysylltiadau cadarn a threfniadau trosglwyddo effeithiol yn bodoli gyda'r ysgol uwchradd ac mae amrywiaeth o weithgareddau pontio llwyddiannus ar gyfer disgyblion.

Cydweithia'r ysgol yn bwrpasol gydag ysgol gyfagos i gynnig profiadau gwerthfawr i'r disgyblion fel datblygu gwaith gwyddoniaeth. Mae athrawon yn awr yn cydweithio gydag ysgolion y clwstwr a'r ysgol uwchradd i gymedroli gwaith disgyblion yn y pynciau craidd. Mae'r prosesau hyn yn cynorthwyo'r athrawon i ddeall yn well y safonau disgwyliedig ar ddiwedd y cyfnodau allweddol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol a gwneir defnydd da o arbenigedd unigolion i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu. Enghraifft ddiweddar o hyn yw defnyddio arbenigedd athro newydd i gynnig gwersi offerynnol cerdd. Defnyddir cymorthyddion dosbarth yn effeithiol i roi cefnogaeth i unigolion a grwpiau o ddisgyblion.

Mae'r trefniadau ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon yn effeithiol. Mae prosesau rheoli perfformiad yr ysgol yn arwain yn bwrpasol at gyfleoedd hyfforddi mewn meysydd priodol sy'n seiliedig ar flaenoriaethau gwella'r ysgol ynghyd â thargedau penodol y staff.

Mae amrediad da o adnoddau safonol yn yr ysgol a chânt eu rheoli'n bwrpasol i sicrhau mynediad llawn i ddisgyblion i bob agwedd o'r cwricwlwm. Mae hyn yn amlwg yn y defnydd cyson a wneir o'r ardal allanol yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r ysgol yn datblygu'n gymuned ddysgu lwyddiannus ac wedi bod yn rhan o rwydweithiau effeithiol gydag ysgolion eraill. Er enghraifft, mae'r ysgol yn cydweithio ar hyn o bryd gydag ysgol arall yn y dalgylch i wella safonau gwyddoniaeth ymchwiliol. Mae hyn wedi arwain at welliant mewn safonau gwaith disgyblion.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro gwariant yn rheolaidd. Ar hyn o bryd, mae gan yr ysgol swm sylweddol wrth gefn, sydd wedi'i glustnodi ar gyfer pwrpas penodol. Gwna'r ysgol ddefnydd priodol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i dargedu a chodi safonau llythrennedd grŵp penodol o ddisgyblion.

O ran safonau gwaith disgyblion, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1:  Sylwadau ar ddata perfformiad

**6612070 - Ysgol Gynradd Llanllyfni**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 87 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 23.9 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 19 | 13 | 7 | 15 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 63.2 | 84.6 | 85.7 | 93.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 19 | 13 | 7 | 15 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 73.7 | 84.6 | 85.7 | 93.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 31.6 | 53.8 | 28.6 | 40.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 | 2 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 19 | 13 | 7 | 15 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 84.2 | 84.6 | 85.7 | 93.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 26.3 | 23.1 | 42.9 | 40.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 1 | 2 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 19 | 13 | 7 | 15 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 84.2 | 92.3 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 26.3 | 76.9 | 42.9 | 40.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 3 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6612070 - Ysgol Gynradd Llanllyfni**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 87 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 23.9 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 10 | 12 | 5 | 8 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 80.0 | 91.7 | 80.0 | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 4 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 12 | 5 | 8 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 80.0 | 83.3 | 80.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 30.0 | 41.7 | 0.0 | 25.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 4 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 12 | 5 | 8 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 80.0 | 91.7 | 80.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 30.0 | 50.0 | 0.0 | 12.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 4 | 4 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 12 | 5 | 8 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 80.0 | 91.7 | 100.0 | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 0.0 | 58.3 | 0.0 | 37.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 4 | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 12 | 5 | 8 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 80.0 | 91.7 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 0.0 | 58.3 | 0.0 | 37.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 4 | 3 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 51 | 51<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 51 | 51<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 51 | 50<br>98% | 1<br>2% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 51 | 51<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 51 | 51<br>100% | 0<br>0% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 51 | 51<br>100% | 0<br>0% | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 50 | 50<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 50 | 50<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 51 | 51<br>100% | 0<br>0% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 90% | 10% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 50 | 48<br>96% | 2<br>4% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 51 | 51<br>100% | 0<br>0% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 51 | 49<br>96% | 2<br>4% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 43 | 30 | 12 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 70% | 28% | 2% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 43 | 38 | 4 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 88% | 9% | 2% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 43 | 40 | 2 | 1 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 93% | 5% | 2% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 43 | 35 | 7 | 0 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 81% | 16% | 0% | 2% | | |
| | | 62% | 35% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 43 | 29 | 12 | 1 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 67% | 28% | 2% | 0% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 42 | 32 | 9 | 1 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 76% | 21% | 2% | 0% | | |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 43 | 34 | 8 | 0 | 1 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 79% | 19% | 0% | 2% | | |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 43 | 26 | 12 | 2 | 1 | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 60% | 28% | 5% | 2% | | |
| | | 49% | 43% | 7% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 43 | 35 | 7 | 0 | 1 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 81% | 16% | 0% | 2% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 42 | 27 | 14 | 0 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 64% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 43 | 36 | 6 | 0 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 84% | 14% | 0% | 2% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 43 | 25 | 15 | 0 | 1 | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 58% | 35% | 0% | 2% | | |
| | | 55% | 39% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 43 | 26<br>60% | 15<br>35% | 1<br>2% | 1<br>2% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 41% | 9% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 43 | 30<br>70% | 11<br>26% | 1<br>2% | 1<br>2% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 43 | 24<br>56% | 15<br>35% | 2<br>5% | 1<br>2% | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 43 | 35<br>81% | 7<br>16% | 0<br>0% | 1<br>2% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 57% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 42 | 24<br>57% | 12<br>29% | 0<br>0% | 1<br>2% | 5 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 43 | 23<br>53% | 13<br>30% | 5<br>12% | 2<br>5% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 43 | 32<br>74% | 10<br>23% | 0<br>0% | 1<br>2% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 34% | 4% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mr Maldwyn Ellis Pryse | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Dr Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Mr Andrew Evans | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mr Geraint Jones (Pennaeth) | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.